At: Aelodau’r Cabinet

Dyddiad: 19 Mehefin 2019

Rhif Union: 01824712568

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe’ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CABINET, DYDD MAWRTH, 25 MEHEFIN 2019** am **10.00 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1 - GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL YN Y RHAN HON O'R CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Dylai’r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 COFNODION** (Tudalennau 7 - 16)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 30 Ebrill 2019 (copi’n amgaeedig).

**5 CYNLLUN RHEOLI SAFLE TREFTADAETH Y BYD TRAPHONT DDWR A CHAMLAS PONTCYSYLLTE** (Tudalennau 17 - 122)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Bobby Feeley, Aelod Cabinet Arweiniol dros Les ac Annibyniaeth (copi ynghlwm) yn cyflwyno Cynllun Rheoli Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte 2019-2019 er cymeradwyaeth.

**6 NEWIDIADAU I GYFRIFIAD GWYLIAU BLYNYDDOL** (Tudalennau 123 - 138)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Richard Mainon, Aelod Cabinet Arweiniol dros Wasanaethau Corfforaethol a Chyfeiriad Strategol (copi ynghlwm) parthed cynigion i symleiddio'r broses o cyfrifo hawliau gwyliau blynyddol a gwyliau banc ar gyfer gweithwyr.

**7 ADOLYGIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2018/19** (Tudalennau 139 - 208)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Cabinet Arweiniol dros Gyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi'n amgaeedig) yn cyflwyno'r Adolygiad Perfformiad Blynyddol drafft ar gyfer 2018-19 cyn ei gyflwyno i'r Cyngor er cymeradwyaeth.

**8 CYFLWYNO MODEL DARPARU AMGEN (MDA) AR GYFER AMRYWIOL WEITHGAREDDAU/ SWYDDOGAETHAU CYSYLLTIEDIG Â HAMDDEN** (Tudalennau 209 - 258)

Ystyried adroddiad ar y cyd gan y Cynghorwyr Bobby Feeley, Aelod Cabinet Arweiniol dros Les ac Annibyniaeth, a Julian Thompson-Hill, Aelod Cabinet Arweiniol dros Gyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi ynghlwm) yn gofyn i'r Cyngor argymell bod y Cabinet yn cefnogi mabwysiad yr Erthyglau Cymdeithasu ar gyfer Cwmni Masnachu Cyfyngedig Drwy Warant nid er elw arfaethedig yr Awdurdod Lleol.

**9 STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2019-23** (Tudalennau 259 - 284)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi ynghlwm) yn cyflwyno'r fersiwn diweddaraf a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (2019-23) er cymeradwyaeth.

**10 ADRODDIAD ARIANNOL (ALLDRO ARIANNOL 2018/19)** (Tudalennau 285 - 298)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Corfforaethol (copi'n amgaeedig), yn manylu ar y sefyllfa refeniw derfynol ar gyfer 2018/19 a sut y bwriedir ymdrin â'r cronfeydd wrth gefn a'r balansau.

**11 ADRODDIAD CYLLID** (Tudalennau 299 - 340)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi ynghlwm) ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a’r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb.

**12 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET** (Tudalennau 341 - 346)

Derbyn Rhaglen Gwaith i’r Dyfodol amgaeedig y Cabinet a nodi’r cynnwys.

**13 CYMERADWYO CYTUNDEB GOFAL YN Y CARTREF GOGLEDD CYMRU** (Tudalennau 347 - 372)

Ystyried adroddiad **(sy’n cynnwys atodiadau cyfrinachol)** gan y Cynghorydd Bobby Feeley, Aelod Cabinet Arweiniol dros Les ac Annibyniaeth (copi ynghlwm) ynglŷn a chanlyniad yr ymarfer caffael diweddar ar gyfer Cytundeb Gofal yn y Cartref Gogledd Cymru a chymeradwyo a gwrthod rhai tendrau penodol a ddynodwyd o fewn y adroddiad.

**RHAN 2 - MATERION CYFRINACHOL**

GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Argymhellir, yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod tra bydd yr eitem fusnes ganlynol yn cael ei thrafod oherwydd ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu fel y'i diffinnir ym mharagraff 14, Rhan 4, Atodlen 12A y Ddeddf.

**14 PENODI CONTRACTWYR AR GYFER FFRAMWAITH CYNNAL A CHADW AC AILWAMPIO TAI GWAG** (Tudalennau 373 - 390)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Cyng. Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi’n amgaeedig) yn rhoi manylion am ganlyniad y broses gaffael ar gyfer y Fframwaith Tai Gwag ac argymell penodi contractwyr.

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

| | |
|---|---|
| Hugh Evans | Tony Thomas |
| Bobby Feeley | Julian Thompson-Hill |
| Huw Hilditch-Roberts | Brian Jones |
| Richard Mainon | Mark Young |

**COPIAU I’R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a’r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned